



PROFFIL WARD GORSEINON A PHENYRHEOL: EBRILL 2025

Cynghorwyr (Pleidlais etholiadol, Mai 2022): Jan Curtice (Labour – 2,080); Andrew Stevens (Labour – 2,073); Nicola Matthews (Labour – 1,800). *Y ganran a bleidleisiodd = 35%.*
Etholwyr: 7,913



- **Lleoliad:** Tua 11 cilomedr i'r gogledd-orllewin o ganol y ddinas.
- **Wardiau cyfagos (Abertawe):** Pontarddulais, Pont-lliw a Thir-coed, Penlle'r-gaer, Llwchwr
- **Adolygiad o ward etholiadol 2022:** Wedi newid - bellach yn cynnwys hen wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol.
- **Ardaloedd Etholaethol:** Gŵyr (Senedd Cymru a Senedd y DU hyd at fis Gorffennaf 2024) / Gŵyr (Senedd y DU o fis Gorffennaf 2024).
- **Poblogaeth** (Amcangyfrif Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i dalgrynnu, canol 2022): 10,700.
- **Ardal:** 10.9 km². **Dwysedd poblogaeth:** 984 pobl fesul km² (SYG, 2022).
- **Gweithwyr** (ward flaenorol*, amcangyfrif y gweithle SYG, 2023): 3,500. Prif gyflogwyr: Asda, busnesau'r ganolfan ardal, Junction 47 Retail Park, Gorseinon Development Trust, Cyngor Abertawe (ysgolion). [* Sylwer: mae'r ffigur yn cyfuno hen wardiau Gorseinon a Phenyrheol]

Nodweddion, cyfleusterau ac ardaloedd lleol ward:



YNGHYLCH Y WARD

Tyfodd pentref Gorseinon yn ddramatig yn ystod diwedd y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif o ganlyniad i sefydlu sawl gwaith dur a thunplat ac ehangu'r diwydiant codi glo yn yr ardal. Codwyd llawer o dai newydd ar y pryd, yn bennaf yn yr ardal y naill ochr i'r Stryd Fawr ar ffurf eiddo teras traddodiadol. Datblygwyd tai pâr mwy hefyd ar Alexandra Road i'r gorllewin o ganol y dref, ac yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd ar hyd Pontarddulais Road i'r gogledd. Yn ystod y cyfnod wedi'r rhyfel codwyd tai yn yr ardal i'r gorllewin o Pontarddulais Road. Yn y blynyddoedd diweddar adeiladwyd tai ar safleoedd tir llwyd mawr a adawyd ar ôl pan gaewyd y gwaith dur a thunplat – yn benodol, datblygiad Pentref Bryngwyn, sy'n cynnwys cymysgedd o flociau o randai, tai pâr a thai ar wahân.

Mae rhan ogledd-orllewinol y ward yn cynnwys aneddiadau Penyrheol, Pengelli a Waungron, a dyfodd i ddechrau oherwydd datblygiadau diwydiannol tua throad yr 20fed ganrif, gan gynnwys agor gwaith dur a thunplat Pengelli ym 1900. Yn gynharach fyth, cloddiwyd am lo yn ardal Coalbrook, gyda'r glo'n cael ei drosglwyddo ar reiliau tram i gychod ar afon Llchwyr. Y tu hwnt i'r pentrefi hyn, mae llawer o'r ward yn isel, yn enwedig i'r gorllewin ger afon Llchwyr ar ei ffin orllewinol. Mae'r M4 i mewn i Sir Gaerfyrddin yn ffurfio'i ffin ogledd-ddwyrainol am oddeutu 3.5km.


YSTADEGAU POBLOGAETH AC AELWYDYDD

Amcangyfrifon poblogaeth (2022)

Poblogaeth	Gorseinon a Phenyrheol		Abertawe
	Cyfanswm	%	
Oed: 0-4	564	5.3	4.7
5-15	1,404	13.1	12.3
16-24	1,041	9.7	13.1
25-44	2,697	25.2	24.7
45-64	2,838	26.5	24.8
65-74	1,097	10.3	10.5
75+	1,052	9.8	10.0
Cyfanswm	10,693	100	100
Benyw	5,497	51.4	50.5
Gwryw	5,196	48.6	49.5

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bychain (canol 2022), SYG. Cyhoeddwyd 25 Tachwedd 2024.

Sylwer: Mae ystadegau ward yn perthyn i Ardaloedd Cynnyrch (ACau) y Cyfrifiad a ddangosir ar y map cyfagos.



Crynodeb

- Y 7fed boblogaeth ward uchaf yn Abertawe, a'r 18fed dwysedd poblogaeth uchaf (2022).
- Canran ychydig yn uwch o blant dan 16 oed ond cyfran is o bobl 16-24 oed.
- Cyfrannau uwch o bobl a aned yn y DU ac sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Categoriâu cyfansoddiad aelwydydd yn gyffredinol yn agos at gyfartaledd Abertawe.
- Cyfran uwch o dai pâr sydd wedi'u perchnogi gyda morgais/benthyciad.
- Canran uwch o oedolion sy'n weithgar yn economaidd a gweithwyr.

Nodweddion poblogaeth

Pobl:	Gorseinon a Phenyrrheol	%	Abertawe %
a aned yn y DU	10,220	96.1	90.6
a aned y tu allan i'r DU	416	3.9	9.4
mewn grŵp ethnig heb fod yn wyn	326	3.1	8.6
sy'n gallu siarad Cymraeg (3+ oed)	1,395	13.5	11.2
mewn ieuchyd da	8,258	77.6	78.7
sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb	2,480	23.3	22.4
â chymwysterau Lefel 4+ (16+ oed)	2,445	28.3	32.8
heb gymwysterau (16+ oed)	1,735	20.1	18.9

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, SYG (Tablau TS004, TS021, TS033, TS037, TS038, TS067).

Cyfansoddiad aelwydydd

	Gorseinon a Phenyrrheol	%	Abertawe %
Cyfanswm aelwydydd / (Maint cyfartalog aelwyd)	4,667	(2.28)	(2.22)
Cyfansoddiad: Un person: 66+ oed	719	15.4	14.5
Arall	886	19.0	19.9
Aelwyd teulu sengl Pob un yn 66+ oed	384	8.2	9.5
Pâr priod neu mewn partneriaeth sifil	1,288	27.6	26.8
Teulu pâr sy'n cyd-fyw	535	11.5	10.4
Teulu unig riant	624	13.4	12.6
Aelwyd teulu sengl arall	24	0.5	0.7
Mathau eraill o aelwydydd	207	4.4	5.6

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, SYG (Tabl TS003).

TAI: Math a deiliadaeth

Math o lety	Gorseinon a Phenyrrheol	%	Abertawe %
Ar Wahân	1,140	24.4	24.0
Pâr	1,999	42.8	34.5
Teras (gan gynnwys pen teras)	819	17.6	25.4
Fflat neu fflat ddeulawr	703	15.1	15.9
Carafân neu gartref teithiol/dros dro arall	5	0.1	0.2

Daliadaeth	Gorseinon a Phenyrrheol	%	Abertawe %
Aelwydydd: Wedi'i berchnogi: Yn llwyr	1,563	33.5	35.4
Wedi'i berchnogi gyda morgais neu fenthyciad	1,531	32.8	26.9
Aelwydydd: Wedi'u rhentu: Rhentu cymdeithasol; gan y cyngor	431	9.2	11.7
Rhentu cymdeithasol; Arall (gan gynnwys Cymdeithasau Tai)	423	9.1	7.4
Rhentu preifat	702	15.0	18.0
Arall (gan gynnwys perchnogaeth a rennir, byw yn ddi-rent)	16	0.3	0.6

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, SYG (Tablau TS044, TS054).

GWEITHGARWCH ECONOMAIDD

Pobl 16 oed ac yn hŷn:	Gorseion a Phenyrrheol	%	Abertawe %
Yn economaidd weithgar	5,129	59.4	54.3
Gweithwyr: Rhan-amser ac amser llawn	4,197	48.6	42.2
Hunangyflogedig	535	6.2	6.4
Di-waith	202	2.3	2.5
Myfyriwr sy'n economaidd weithgar	195	2.3	3.3
Economaidd anweithgar	3,501	40.6	45.7
Wedi ymddeol	2,010	23.3	23.9
Myfyriwr	409	4.7	8.4
Gofalu am y cartref neu deulu	289	3.3	4.2
Sâl neu anabl yn y tymor hir	596	6.9	6.3
Arall	197	2.3	2.9


Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, SYG (Tabl TS066)

MYNEGAI AMDDIFAEDD LLUOSOG CYMRU (MALIC)

- MALIC 2019 yn seiliedig ar ddaearyddiaeth Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) 2011 - yn y proffil hwn, mae'r ardal yn cynnwys saith ACEHI.

Mynegai uchaf a safleoedd parthau (Cymru):

- Gorseion a Phenyrrheol 5 (G&P 5) – Cyflogaeth (Degradd 1af), Mynegai cyffredinol, Incwm, Iechyd (2il deigradd), Addysg (3ydd deigradd).
- Gorseion a Phenyrrheol 6, 7 (G&P 6, 7) – Iechyd (2il deigradd).



ACEHI	Mynegai cyffredinol	Parthau: Incwm	Cyflogaeth	Iechyd	Addysg	Mynediad at Wasanaethau	Tai	Diogelwch Cymunedol	Amgylchedd Ffisegol
G&P 1	73 1030	74 948	64 774	51 657	64 872	126 1702	65 1087	48 624	139 1771
G&P 2	64 842	55 671	58 695	47 581	59 792	67 1036	74 1146	100 1354	81 1281
G&P 3	91 1388	92 1238	101 1307	77 952	72 990	54 900	90 1287	114 1543	121 1641
G&P 4	92 1405	80 1074	88 1157	72 865	82 1197	116 1597	100 1466	93 1257	125 1679
G&P 5	28 305	32 285	22 162	20 206	38 487	36 683	59 929	95 1267	132 1712
G&P 6	58 762	66 773	57 685	36 381	68 962	104 1485	49 756	43 579	37 807
G&P 7	58 762	66 773	57 685	36 381	68 962	104 1485	49 756	43 579	37 807

Ffynhonnell: MALIC 2019 (cyhoeddwyd Tachwedd 2019), Llywodraeth Cymru.

Sylwer: ACEHlau safleoedd 1-148 (Abertawe), 1-1909 (Cymru).

Sylwer: Y safleoedd ar gyfer ACEHlau 'Gorseion a Phenyrrheol 6' a 'Gorseion a Phenyrrheol 7' yw safleoedd MALIC 2019 ar gyfer yr hen ACEHI 'Gorseion 1'.

Sylwer: Bydd y cynnwys yn y proffil hwn yn cael ei ddatblygu wrth i ragor o ddata wardiau ddod ar gael.

Mae'r defnydd o ddata arolwg Ordans yn y ddogfen hon yn destun amodau a thelerau – www.abertawe.gov.uk/trwyddeddos